

GALWAD

CREU EICH CYMUNED

GWEITHGAREDD I DDYLUNIO EICH
CYMUNED 2052, GAN DDOD AG ELFENNAU
I MEWN I'W GWNEUD MOR GYNHWYSOL A
CHYNALIADWY Â PHOSIBL



Eco-Schools



Eco-Sgolion



cadwch keep
gymru'n wales
daclus tidy

Gwybodaeth Gefndir

Mae bod yn rhan o gymuned yn bwysig i'n llesiant gan ei fod yn rhoi ymdeimlad o berthyn i ni. Trwy gydol hanes, mae bodau dynol wedi ffurfio cymunedau a gall y rhain fod ar sawl ffurf wahanol. Mae eich ysgol yn gymuned ar gyfer dysgu, efallai y byddwch yn mynychu clwb neu weithgaredd sy'n rhoi cymuned o bobl â diddordeb tebyg.

Y dyddiau hyn mae gennym gymunedau ar-lein lle gall pobl rannu syniadau, meddyliau, cwestiynau a gofyn am gefnogaeth. Yn y bôn mae angen i fodau dynol deimlo'n gysylltiedig ac mae cymuned yn ein helpu i deimlo bod rhywun yn gwranddo arnom, yn ein gwerthfawrogi a'n bod yn bwysig.

Yn anffodus, weithiau nid ydym yn gysylltiedig o gwbl â'n cymuned leol a gall pobl weithiau deimlo'n eithaf ynysig hyd yn oed pan fyddant wedi'u hamgylchynu gan bobl.

Gall y gymuned lle rydym yn byw ddarparu ymdeimlad gwych o gysylltiad ag eraill. Gall hefyd fod yn fan lle gallwn gydweithio i greu lle mwy cynaliadwy i fyw a lleihau ein heffaith ar ein hamgylchedd a'r Ddaear.

Sut olwg sydd ar fyw mewn cymuned?

Mae llawer o enghreifftiau gwahanol o fyw mewn cymuned, llawer lle mae pobl yn byw yn unigol neu gyda theuluoedd ond yn rhannu gofodau eraill, ac eraill lle mae gennych yr opsiwn i fyw a gweithio fel cymuned gyfan, fel teulu estynedig mawr, yn union fel yn Lammas yng Ngorllewin Cymru [Lammas — Pioneering Sustainable Living](#)

Dyma rai enghreifftiau gwych o ffyrdd cymunedol o fyw ein bywydau, a all ddigwydd ble bynnag yr ydych yn byw:

- Dychmygwch gymuned lle roedd eich holl lysiau yn cael eu tyfu ar randiroedd cymunedol neu ffermydd cymunedol mewn ffordd a oedd yn eu gwneud yn fforddiadwy i'w prynu a hefyd yn annog bywyd gwyllt i ffynnu. [Beth yw CSA? | Gardd Farchnad Tir Awen](#)
- Neu efallai y bydd eich cymuned yn tyfu bwyd i unrhyw un mewn mannau sy'n agored i bawb, yn union fel llawer o drefi a phentrefi sy'n rhan o'r rhwydwaith Incredible Edible [Our story – Incredible Edible](#)
- Meddyliwch am gymuned lle nad oeddem i gyd yn rhuthro i'r siopau i brynu teclyn, offeryn neu beiriant newydd ond yn rhannu eitemau gyda'n cymdogion

neu eu benthyca o'r llyfrgell leol o bethau. [Benthyg Cymru - Llyfrgell Pethau Cymru \(benthyg-cymru.org\)](#)

- Efallai yn eich cymuned na fydd llawer o geir yn eistedd y tu allan i dai ond yn lle hynny bydd ychydig o geir trydan y gallwch eu harchebu pan fydd angen un arnoch! [Bethesda | Co Wheels \(co-wheels.org.uk\)](#)
- Efallai bob mis y bydd eich cymuned yn dod at ei gilydd i gyfnewid dillad ac eitemau nad oes eu hangen mwyach a chefnogi ei gilydd i atgyweirio ac uwchgylchu rhai sydd angen eu trwsio [Lansio cynllun cyfnewid dillad eco Aber-porth i leihau gwastraff - Newyddion y BBC](#)
- Efallai y bydd eich cymuned yn cynhyrchu ei hynni adnewyddadwy ei hun o wynt, dŵr neu'r haul. Ceir rhai enghreifftiau gwych o ynni cymunedol ledled y DU, megis [Ynni Cymunedol Cymru \(communityenergywales.org.uk\)](#)

Mae'r enghreifftiau hyn i gyd eisoes yn digwydd mewn cymunedau ledled y wlad yn ogystal â chaffis cymunedol, gweithgareddau, rhannu sgiliau, siopau a llawer mwy.



Mae car cyffredin yn y DU wedi'i barcio am 23 awr bob dydd. A oes gwir angen cymaint o geir arnom? ([racfoundation.org](#), 2021)



Nid yw tua 1/3 o fwyd hyd yn oed yn gadael y fferm oherwydd nid yw'n edrych fel y mae archfarchnadoedd yn mynnu. Nid yw hyn yn wir gyda bocsys llyisiau lleol a gerddi marchnad. (WWF, 2022)



Yn y DU, daw rhwng 40-45% o'n trydan o ffynonellau adnewyddadwy. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi cymunedau i sefydlu eu cynlluniau cynhyrchu ynni adnewyddadwy eu hunain, sy'n eiddo i'r bobl leol ac yn cael eu rheoli ganddynt.

Gweithgaredd

Meddylwch am eich cymuned neu efallai gymuned yr hoffech chi fyw ynnddi. Sut olwg fydd arni yn 2052 pe gallech chi ei dylunio mewn unrhyw ffordd rydych chi'n ei hoffi?

Gallech chi ddefnyddio map o'ch ardal leol i greu eich dyluniad neu wneud diagram neu lun i ddangos beth fydd yn cael ei gynnwys.

Efallai y gallech chi ddechrau meddwl am yr hyn rydych chi'n ei hoffi am eich cymuned bresennol a'r hyn rydych chi'n meddwl y gellid ei wella?

Cofiwch feddwl am:

- Sut bydd pobl yn teithio?
- O ble bydd bwyd yn dod a sut bydd yn cael ei gynhyrchu?
- Sut bydd eich cymuned yn cynnwys pawb?
- Beth fydd pobl yn gallu ei wneud yn eu hamser hamdden?
- Sut olwg fydd ar y mannau tu allan?
- Beth fydd y man lle byddwch yn dysgu yn ei gynnwys?
- Sut bydd pobl yn cyfathrebu â'i gilydd?
- O ble daw eich ynni?

Her Ychwanegol

Er mwyn i gymuned newid, mae angen digon o bobl yn y gymuned honno sy'n cefnogi newid. Weithiau y peth sy'n atal pobl yw ofn yr anhysbys.

Nawr eich bod wedi creu eich cymuned 2052, dewiswch un agwedd arni a chreu fideo neu hysbyseb fer yn egluro sut y gall pobl gymryd rhan a beth yw'r manteision.

Myfyrio

Nawr eich bod wedi delweddu eich cymuned ddelfrydol, a oes unrhyw gamau y gallwch eu cymryd nawr i ddechrau creu'r newid yr hoffech ei weld? Trafodwch â phwy y gallech chi siarad yn eich cymuned leol am eich syniadau i ennill eu cefnogaeth.

Cysylltiadau â'r cwricwlwm

- Dibenion**
- Dinasyddion Moesegol, Gwybodus
 - Cyfranwyr mentrus, creadigol

**MDPh a
datganiadau Beth
sy'n Bwysig**

Y Dyniaethau

- Mae cymdeithasau dynol yn gymhleth ac amrywiol, ac yn cael eu siapio gan weithredoedd a chredoau dynol.
- Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn ymgysylltu â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu'r ddynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau ystyriol a moesol.

Iechyd a Llesiant

- Mae perthnasoedd iach yn hanfodol i'n llesiant.

Nodau Byd-eang



Nod 7: Ynni Fforddiadwy a Glân

Nod 12: Defnydd a Chynhyrchu Cyfrifol

Nod 11: Dinasoedd a Chymunedau Cynaliadwy

GALWAD



CREATIVITY IN THE UK



Cymru Greadigol
Creative Wales

Cynhyrchir GALWAD gan Casgliad Cymru a'i gomisiynu gan Cymru Creadigol fel rhan o 'UNBOXED: Creadigrwydd yn y DU'.

33-35 Heol yr Eglwys Gadeiriol, Caerdydd, CF11 9HB

33-35 Cathedral Road, Cardiff, CF11 9HB

029 2025 6767

keepwalestidy.cymru

info@keepwalestidy.cymru



Eco-Schools



Eco-Sgolion



cadwch keep
gymru'n wales
caclus tidy